Archwiliad Effeithlonrwydd Dŵr Ysgolion

Cyfarwyddiadau a Gweithgareddau

Mae ysgolion yn defnyddio llawer o ddŵr, ac mae llawer ohono'n cael ei wastraffu heb i neb sylwi. Gall disgyblion fel chi helpu i ddarganfod a yw eich ysgol yn effeithlon o ran dŵr ac a oes modd gwneud gwelliannau ac arbedion drwy wneud yr Archwiliad Effeithlonrwydd Dŵr yma ar gyfer eich ysgol. Dilynwch y camau isod a mwynhewch gyda'ch athrawon wrth wneud rhai o'r gweithgareddau, ac ychwanegwch y wybodaeth rydych chi'n ei chasglu at y Ffurflen Archwilio yma.

CAM 1

Faint o ddŵr rydyn ni'n ei ddefnyddio?

- Gofynnwch i'ch athrawon neu ymchwiliwch ar y we neu yn eich llyfrgell i ddarganfod o ble mae eich cyflenwad dŵr lleol yn dod.
- Cyfrifwch faint o ddŵr mae eich ysgol yn ei ddefnyddio bob wythnos drwy wneud darlleniad mesurydd dŵr dyddiol am wythnos.
- Gall eich athro rannu'r darlleniadau ar gyfer y penwythnos a chadarnhau faint o ddŵr a gafodd ei ddefnyddio pan oedd yr ysgol ar gau.
- Ychwanegwch eich canfyddiadau at Adran 1 o'r Ffurflen Archwilio.

CAM 2

Ble rydyn ni'n defnyddio dŵr?

- Ewch am dro o amgylch eich ysgol i ddod o hyd i'r holl lefydd lle mae dŵr yn cael ei ddefnyddio. Mae rhai llefydd yn fwy amlwg na'i gilydd, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn chwilio'n ofalus ar safle'r ysgol am ddefnyddwyr dŵr a gwastraffwyr dŵr posib! Cofiwch fynd i chwilio yn y llefydd canlynol: ystafelloedd ymolchi, ystafelloedd dosbarth, meysydd chwarae, campfeydd, neuaddau, gerddi, ffynhonnau dŵr.
- Ychwanegwch eich rhestr gyfan o lefydd at y tabl yn Adran 2 o'r Ffurflen Archwilio.
- Nodwch yn y tabl unrhyw lefydd lle daethoch o hyd i ddŵr yn gollwng. Gallwch chi a'ch athro wirio tapiau a thoiledau am ddŵr sy'n gollwng.

GWEITHGAREDD

Darllen y Mesurydd Dŵr gyda'ch Athro

1. Mae'r gweithgaredd yma'n dibynnu ar allu cael mynediad diogel at y mesurydd dŵr.
2. Gofynnwch i oedolyn godi clawr y mesurydd a gwnewch yn siŵr bod yr ardal yn ddiogel cyn i chi ei ddarllen.
3. Darllenwch y mesurydd dŵr ar yr un pryd bob dydd am 5 diwrnod.

GWEITHGAREDD

Faint o ddŵr sy'n gollwng o'r tap?

1. Rhowch gwpan mesur (sy'n mesur mewn mililitrau) o dan y tap sy'n gollwng a dechreuwch eich stopwatsh.
2. Gadewch y cwpan o dan y tap sy'n gollwng am 15 munud.
3. Nodwch faint o fililitrau a gasglwyd, yna gall eich athro eich helpu i gyfrifo faint o litrau yr awr sy'n gollwng o'r tap.
4. Gyda'ch gilydd gallwch chi gyfrifo faint o ddŵr fyddai'n cael ei wastraffu mewn diwrnod, mewn wythnos ac mewn blwyddyn.

NOSON DDŴR

Brought to you by
Wedi'i ddod atoch gan
waterwise

Wedi'i noddi atoch gan
DEWCH i ARBED DŴR. LET'S SAVE WATER.

Archwiliad Effeithlonrwydd Dŵr Ysgolion

- Gyda chymorth eich athro gallwch chi hefyd fesur faint o ddŵr mae eich toiledau'n ei ddefnyddio i fflysio a faint o ddŵr sy'n dod allan o'ch tapiau mewn munud (neu gyfradd y llif).

- Dyma ganllaw cyffredinol ar gyfer cyfraddau llif:
  - Ni ddylai llif tapiau sinc fod yn fwy na 12 litr y funud
  - Ni ddylai llif tapiau basn golchi dwylo fod yn fwy na 6 litr y funud
  - Ni ddylai llif cawod, os oes gennych chi rai, fod yn fwy na 9 litr y funud

- Gorffennwch Gam 2 drwy ychwanegu'r holl wybodaeth yma at eich tabl yn y Ffurflen Archwilio. Ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn. Bydd hyn yn eich helpu i weld cyfanswm y defnyddwyr dŵr a faint o dapiau neu ollyngiadau sydd angen eu trwsio.

GWEITHGAREDD

Ydy'r toiled yn gollwng?

1. Codwch gaead y seston ac arllwyswch ddigon o liw bwyd er mwyn newid lliw'r dŵr yn y seston.
2. Arhoswch am ychydig funudau i weld a yw'r dŵr yn y bowlen yn newid lliw.

GWEITHGAREDD

Faint o ddŵr sy'n cael ei fflysio i lawr y toiled?

1. Codwch gaead y seston ac arllwyswch ddigon o liw bwyd er mwyn newid lliw'r dŵr yn y seston.
2. Fflysiwch y toiled i wagio'r seston.
3. Ail-lenwch y seston at y pwynt llenwi gyda jwg mesur a chyfrifwch faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio gyda phob fflysh.

GWEITHGAREDD

A yw cyfraddau llif ein tapiau'n gyflym neu'n araf?

1. Rhowch fwced 10 litr o dan y tap rydych chi'n ei brofi, trowch y tap ymlaen hanner ffordd a dechreuwch eich stopwatsh.
2. Gadewch y bwced o dan y tap am 30 eiliad yn unig.
3. Nodwch faint o litrau a gasglwyd mewn 30 eiliad a dyblwch hynny i gael litrau y funud (cyfradd y llif).

CAM 3

Ydyn ni'n ddoeth gyda dŵr?

- Atebwch y cwestiynau yn Adran 3 o'r Ffurflen Archwilio i weld a yw eich ysgol yn gwneud popeth o fewn ei gallu i fod yn ddoeth gyda dŵr.

CAM 4

Allwn ni arbed rhywfaint o ddŵr heddiw?

- Ysgrifennwch restr o'r holl lefydd lle daethoch chi o hyd i ddŵr yn cael ei wastraffu yn Adran 4 o'r Ffurflen Archwilio.
- Yna, ysgrifennwch sut rydych chi'n meddwl y gallwch chi annog disgyblion eraill i arbed dŵr yn eich ysgol.

Ffurflen Archwilio Effeithlonrwydd Dŵr Ysgolion

ADRAN 1 Faint o ddŵr rydyn ni'n ei ddefnyddio?

1. Llenwch y tabl
2. Ar gyfer beth defnyddiwyd y dŵr dros y penwythnos?

Diwrnod	Darlleniad Mesurydd Dŵr	Litrau o ddŵr a ddefnyddiwyd
Dydd Llun		
Dydd Mawrth		
Dydd Merche		
Dydd Iau		
Dydd Gwener		
Dydd Sadwrn		
Dydd Sul		
CYFANSWM DŴR A DDEFNYDDIWYD YR WYTHNOS YMA		

ADRAN 2 Ble rydyn ni'n defnyddio dŵr?

1. Llenwch y tabl

Nodwch ble mae'r dŵr yn cael ei ddefnyddio	Oes dŵr yn gollwng?	Beth yw cyfradd llif y tap?	Faint o ddŵr gafodd ei fflysio yn y toiled?

2. Llenwch y bylchau isod

- Mae ☐ toiled
- Mae ☐ toiled â botwm fflysio deuol
- Mae ☐ toiled â botwm fflysio sengl
- Mae ☐ tap basn golchi dwylo
- Mae ☐ wrinal
- Mae ☐ tap allanol
- Mae ☐ ffynnon ddŵr
- Mae ☐ tap yn llifo'n rhy gyflym
- Mae ☐ tap yn llifo'n berffaith
- Mae ☐ tap yn llifo'n rhy araf
- Fe wnaethon ni gyfri ☐ tap yn gollwng
- Fe wnaethon ni gyfri ☐ toiled yn gollwng

NOSON DDŴR

Brought to you by
Wedi'i ddod atoch gan
waterwise

Wedi'i noddi atoch gan
DEWCH i ARBED DŴR. LET'S SAVE WATER.

Ffurflen Archwilio Effeithlonrwydd Dŵr Ysgolion

ADRAN 3 Ydyn ni'n ddoeth gyda dŵr?

1. A oes llawer o ollyngiadau?

2. A oes unrhyw dapiau sy'n cael eu gadael ar agor pan nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio?

3. Faint o doiledau sy'n doiledau fflysio deuol?

4. Ydy'r holl ddisgyblion yn gwybod y gwahaniaeth rhwng hanner fflysh a fflysh llawn, a pha un i'w ddefnyddio pryd?

5. Ydy'r holl ddisgyblion yn gwybod wrth bwy dylen nhw ddweud os ydyn nhw'n gweld toiledau neu dapiau'n gollwng?

6. Ydy'r holl ddisgyblion yn diffodd y tapiau os ydyn nhw'n cael eu gadael ar agor?

7. Oes gan eich ysgol gasgen ddŵr?

8. Sut mae tiroedd eich ysgol yn cael eu dyfrio?

9. Pa mor aml mae gerddi a thiroedd eich ysgol yn cael eu dyfrio?

10. Pa adeg o'r dydd mae gerddi a thiroedd yr ysgol yn cael eu dyfrio?

11. Pa fath o blanhigion sy'n cael eu tyfu yn eich ysgol?

12. Oes unrhyw bosteri/arwyddion i atgoffa disgyblion i ddefnyddio dŵr yn ddoeth? Os na, gallwch lawrlwytho posteri o waterwise.org.uk/how-to-save-water

ADRAN 4 Allwn ni arbed rhywfaint o ddŵr heddiw?

1. Nodwch yr holl lefydd lle mae dŵr yn cael ei wastraffu yn eich ysgol a dywedwch wrthon ni sut allech chi ei arbed.

2. Sut allwch chi annog myfyrwyr eraill i arbed dŵr yn yr ysgol?

Da iawn! Rydych chi wedi gwneud gwaith gwych. Rydych chi wedi cwblhau'r Archwiliad Effeithlonrwydd Dŵr. Nawr gallwch arbed dŵr a sicrhau bod eich ysgol yn gofalu am ei defnydd o ddŵr nes i chi gynnal archwiliad arall y flwyddyn nesaf!

NOSON DDŴR

Brought to you by
Wedi'i ddod atoch gan
waterwise

Wedi'i noddi atoch gan

DEWCH i ARBED DŴR. LET'S SAVE WATER.